1. CYFLWYNIAD

Mae'r Cyd- Bwyllgor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i 'r Cyd- Bwyllgor adrodd ar berfformiad rheolaeth trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn sef canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn.

Cymeradwywyd strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyd- Bwyllgor am 2026/27 yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2026. Mae'r Cyd- Bwyllgor wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae adnabyddiaeth lwyddiannus, monitro a rheolaeth risg yn ganolog i strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyd- Bwyllgor.

2. CYD-DESTUN ALLANOL

Y cefndir economaidd: Y stori allweddol oedd y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol a'i effaith ar brisiau ynni byd-eang a chwyddiant, tra ar ochr gwleidyddiaeth y DU, daeth Andy Burham yn Brif Weinidog newydd. Er bod prisiau ynni wedi dangos arwyddion o gymedroli tua diwedd (calendr) Ch2, gwthiodd y gwrthdaro parhaus olew a nwy i fyny yn sydyn unwaith eto yn Ch3. Tua chanol mis Medi, roedd prisiau olew Brent a nwy y DU dros 30% a 70% yn uwch yn y drefn honno o'i gymharu â'r cyfnod cyn Adroddiad Polisi Ariannol (MPR) Gorffennaf Banc Lloegr (BoE).

O ystyried effaith chwyddiant y sioc ynni flaenorol o'r rhyfel Rwsia/Wcráin, roedd llunwyr polisi banc canolog yn parhau i fod yn effro i brisiau ynni uwch sy'n bwydo i ymddygiad ehangach o brisiau a gosod cyflogau ('effeithiau ail rownd'). Yn y DU, roedd prisiau tanwydd ac ynni uwch yn amlwg mewn chwyddiant pennawd, ond roedd tystiolaeth gyfyngedig o effeithiau ail rownd materol. Ar yr un pryd, parhaodd pwysau cyflog sylfaenol i gymedroli, ac roedd y farchnad lafur yn parhau i fod yn gymharol rhydd.

Cynhaliodd Pwyllgor Polisi Ariannol y BoE (MPC) y Gyfradd Banc ar 3.75% trwy gydol y cyfnod. Ym mis Ebrill pleidleisiodd yr MPC o 8-1 i adael cyfraddau heb newid, gydag un aelod eisiau cynnydd o 0.25%. Newidiodd y bleidlais i 7-2 ym mis Mehefin a 6-3 ym mis Gorffennaf a Medi, gyda'r holl anghytuno yn ffafrio cynyddu Cyfradd Banc i 4.00%. Mae'r newid mewn patrymau pleidleisio yn adlewyrchu pryder cynyddol y llunwyr polisi am barhad y sioc ynni a'r risg y gallai chwyddiant pennawd uwch gael ei ymgorffori mewn prisiau a chyflogau domestig.

Yng nghyfarfod MPC mis Medi, barnodd y Pwyllgor fod y risgiau chwyddiant ymhellach i fyny o'i gymharu â'i MPR ym mis Gorffennaf. Roedd prisiau ynni wedi codi eto ac roedd costau benthyca yn sylweddol uwch nag cyn y gwrthdaro rhwng yr Unol Daleithiau ac Iran. Er gwaethaf disgwyl y byddai chwyddiant yn codi ymhellach yn y tymor byr, roedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn credu y byddai marchnad lafur meddal, capasiti sbâr ac amodau ariannol cyfyngol yn lleihau chwyddiant dros amser. Ar ben hynny, dangosodd y data nad oedd llawer o dystiolaeth o effeithiau ail rownd

sylweddol o hyd, er bod yr MPC yn pwysleisio y byddai'r risg o'r effeithiau hyn yn cynyddu y byddai prisiau ynni uchel ac anwadal yn parhau.

Gostyngodd chwyddiant prisiau defnyddwyr (CPI) y DU i ddechrau, gan awgrymu nad oedd y sioc ynni cychwynnol yn lledaenu i ystod ehangach o nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, yn ddiweddarach yn y cyfnod cododd chwyddiant eto, gyda CPI yn codi o 2.6% ym mis Mehefin i 3.1% ym mis Awst yn bennaf oherwydd costau trafnidiaeth uwch. CPI craidd oedd 2.6% ym mis Gorffennaf ac Awst, sy'n awgrymu bod y gwahaniaeth rhwng hynny a chwyddiant pennawd oherwydd ynni yn hytrach na chynnydd eang mewn chwyddiant sylfaenol.

Roedd gweithgarwch economaidd y DU ychydig yn gryfach na'r disgwyl i ddechrau dros y cyfnod. Ehangodd CMC 0.6% yn chwarter cyntaf y flwyddyn galendr a 0.5% yn yr ail chwarter, ychydig yn gryfach na'r amcangyfrif cychwynnol o 0.4%. Roedd gweithgarwch misol yn fwy cyfnewidiol, gyda chrebachu o -0.1% ym mis Ebrill, ac yna enillion o 0%, 0.3% a 0.4% ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf yn y drefn honno.

Parhaodd data'r farchnad lafur i ddangos amodau cyflogaeth sy'n meddalu. Gostyngodd y gyfradd ddiweithdra i 4.9% ym mis Ebrill ac arhosodd ar y lefel honno hyd at fis Gorffennaf, yn erbyn disgwyliadau y byddai'n ticio i fyny. Parhaodd swyddi gwag hefyd i ostwng, i 702,000 yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf. Roedd twf enillion yn cymedroli, gydag enillion rheolaidd yn 3.5% yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf a chyfanswm enillion yn 3.9%, sy'n awgrymu bod y galw am lafur gwannach yn parhau i atal pwysau cyflog domestig.

Mae Arlingclose, cynghorydd trysorlys y CBC, yn disgwyl y bydd Cyfradd Banc yn aros ar 3.75%. Fodd bynnag, mae prisiau ynni uwch oherwydd y gwrthdaro parhaus a'r ansicrwydd ynghylch Cyllideb y llywodraeth sydd ar ddod wedi cynyddu'r risgiau i fyny yn y tymor byr. Ar ben hynny, mae rhagamcanion chwyddiant cryfach, a oedd yn cyd-fynd â phenderfyniad MPC mis Medi, wedi symud disgwyliadau'r farchnad ar gyfer Cyfradd Banc yn uwch. Yn ogystal, er gwaethaf ychydig o dystiolaeth o effeithiau ail rownd hyd yn hyn, mae tôn newidiol cofnodion MPC yn awgrymu efallai na fydd angen rhywbeth seismig i roi'r Pwyllgor i gynyddu Cyfradd y Banc.

Adolygiad credyd: Cadwodd Arlingclose ei therfyn hyd heb ei warantu uchaf a argymhellir ar y mwyafrif o'r banciau ar ei restr wrthbarti ar 6 mis. Mae'r banciau eraill yn aros ar 100 diwrnod.

3. CYD-DESTUN LLEOL

Ar 30 Medi 2026 roedd gan y Cyd- Bwyllgor fuddsoddiadau o £73.6m yn bennaf oherwydd arian grant y Cynllun Twf a Parth Buddsoddi sydd heb ei wario eto.

Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

	31.3.26 Balans £m	**Symudiad 6 Mis £m**	**30.9.26 Balans £m**
Buddsoddiadau tymor byr	34.1	14.4	48.5
Arian a Chywerthydd arian	22.3	2.8	25.1
Cyfanswm Buddsoddiadau	**56.4**	**17.2**	**73.6**

4. GWEITHGAREDD BUDDSODDI TRYSORLYS

Mae Cod Rheolaeth Trysorlys diwygiedig CIPFA yn diffinio buddsoddiadau rheolaeth trysorlys fel y rhai sy'n codi o lif arian y Cyd- Bwyllgor neu weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bod angen yr arian parod i'w ddefnyddio yn ystod busnes.

Mae gan y Cyd Bwyllgor gronfeydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod y 6 mis, roedd balans buddsoddiadau'r Cyd- Bwyllgor yn amrywio rhwng £52.9 a £76.0 miliwn. Dangosir sefyllfa'r buddsoddiadau yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

	31.3.26 Balans £m	**Symudiad 6 mis £m**	**30.9.26 Balans £m**	**30.9.26 Incwm %**
Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig)	2.3	-2.2	0.1	3.15
Awdurdodau Lleol	31.1	13.9	45.0	4.11
Cronfeydd Marchnad Arian	20.0	5.0	25.0	3.92
Swyddfa Rheoli Dyledion	3.0	0.5	3.5	3.74
Cyfanswm Buddsoddiadau	**56.4**	**17.2**	**73.6**	

Mae Cod CIPFA a chanllaw'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd- Bwyllgor i fuddsoddi ei arian yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyd-Bwyllgor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Arhosodd Cyfradd y Banc ar 3.75% yn ystod y cyfnod. Roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF yn amrywio rhwng 3.70% a 3.76% a Chyfraddau'r Cronfeydd Marchnad Arian rhwng 3.74% a 3.97%.

5. CYDYMFFURFIO

Gall y Pennaeth Cyllid gadarnhau bod gweithgareddau rheolaeth trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheolaeth Trysorlys cymeradwy'r Cyd-Bwyllgor. Dangosir cydymffurfiad â therfynau buddsoddi penodol yn y tabl isod.

Cyfyngiadau Buddsoddi

	Uchafswm Gwrthbarti yn y cyfnod	**Gwir Gwrthbarti 30.9.26**	**2026/27 Terfyn Gwrthbarti**	**Cydym-ffurfio**
Llywodraeth y DU	£19m	£3.5m	Diderfyn	✓
Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill	£5m	£5m	£5m	✓
Buddsoddiadau â sicrwydd	£0m	£0m	£5m	✓
Banciau (ansicredig)	£2.5m	£0.1m	£3m	✓
Cymdeithasau adeiladu (ansicredig)	£0m	£0m	£3m	✓
Darparwyr cofrestredig (ansicredig)	£0m	£0m	£3m	✓
Cronfeydd marchnad arian	£5m	£5m	£5m	✓

6. HYFFORDDIANT BUDDSODDI

Yn ystod y cyfnod, mae swyddogion wedi mynychu hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose sy'n berthnasol i'w swyddi.

7. ARGYMHELLIAD

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.